



Theatr
Genedlaethol
Cymru

SWYDD: CYFARWYDDWR ARTISTIG

Pecyn Swydd



Gwlad yr Asyn (ffotoNant)

Annwyl ymgeisydd

Diolch am eich diddordeb yn y swydd
Cyfarwyddwr Artistig.

Mae'r Theatr Genedlaethol ar drothwy cyfnod hynod gyffrous yn ei hanes, er gwaethaf y deunaw mis diwethaf sydd wedi bod yn heriol i bawb, gan gynnwys y sector theatr. Bu'n rhaid i ni fel cwmni ganslo nifer o gynrychiadau a newid ein ffordd o weithio bron dros nos. Fodd bynnag, fe roddodd y cyfnod clo gyfle i ni arbrofi gyda chyflwyno theatr ar blatfformau digidol a chynnal perthynas gyda'n cynulleidfaoedd mewn ffyrdd amgen. Cawsom ymateb positif i'r gwaith yma, ac roeddem hefyd yn falch o allu cynnig cyflogaeth i nifer o weithwyr llawrydd mewn cyfnod anodd iawn iddyn nhw.

Mae'n adeg o newid mawr yn ein sector ni ac yn y gymdeithas ehangach yn sgil COVID, ond hefyd gan i'r pandemig amlygu anghyfiawnderau yn ein cymdeithas; tanlinellodd ymgyrchoedd megis Black Lives Matter a #WeShallNotBeRemoved yr heriau y mae grwpiau o fewn ein cymdeithas yn eu hwynebu. Ry'n ni wedi ymrwymo i fod yn sefydliad cynhwysol, ac rydym eisoes wedi dechrau ar newid ein ffordd o weithio. Ond proses i'w pharhau yw hon, ac ry'n ni'n agored iawn i syniadau newydd ac yn awyddus i weld y gwaith yn esblygu ymhellach.

Ers rhai misoedd, ry'n ni'n wedi ailddechrau cyflwyno theatr byw, gyda chynhyrchiad Gwlad yr Asyn yn teithio i leoliadau awyr agored ym mis Awst, a chynhyrchiad Anfamol yn teithio i ganolfannau ar draws Cymru ym mis Hydref. Yn amlwg, fel cwmni theatr mae perfformio'n fyw yn holl bwysig i ni, a bu'n bleser bod yn ôl o flaen cynulleidfaoedd, ond ry'n ni hefyd yn awyddus i ddal gafael ar yr hyn a ddatblygwyd ac a ddysgwyd yn ystod y cyfnodau clo, a chyfuno cyfryngau amgen gyda'n rhaglen theatr byw wrth i ni symud ymlaen i'r dyfodol.

Ry'n ni'n edrych am arweinydd creadigol gyda gweledigaeth artistig gref ar gyfer y cyfnod nesaf yn hanes y cwmni. Bydd y Cyfarwyddwr Artistig yn gyfrifol am greu, cyfathrebu a chyflwyno

strategaeth artistig uchelgeisiol ac arloesol sy'n ymestyn apêl ac enw da'r Cwmni yng Nghymru a thu hwnt, ac yn adeiladu ar bartneriaethau llwyddiannus ac effeithiol gyda'r rhanddeiliaid niferus sy'n rhan o lwyddiant y cwmni.

Un o ofynion allweddol y swydd yw ehangu'r gynulleidfa theatr yng Nghymru, drwy greu gwaith sy'n cysylltu â chynulleidfaoedd ledled Cymru ac sy'n cynrychioli hanes a storïau pobl amrywiol Cymru. Bydd y Cyfarwyddwr Artistig yn gweithio'n agos gydag amryw o dimoedd creadigol a chynhyrchu, er mwyn creu perfformiadau sy'n ymgysylltu â'r gynulleidfa yn ei holl amrywiaeth.

Bydd y Cyfarwyddwr Artistig yn gweithio ar y cyd â Rheolwr Gyfarwyddwr y Theatr i arwain y Cwmni yn strategol a gweithredol ac i fod, gyda'i gilydd, yn gyfrifol am lwyddiant y Cwmni. Yn strategol, mae gofyn i'r cwmni gyflawni nodau ei brif ariannwr – Cyngor Celfyddydau Cymru – ond hefyd nodau strategaethau ehangach megis Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru a gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd y Cyfarwyddwr Artistig a'r Rheolwr Gyfarwyddwr yn adrodd yn unigol ac ar y cyd i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, gyda chyswllt rheolaidd â Chadeirydd y Bwrdd yn ôl yr angen.

Byddai'r ymgeisydd delfrydol yn gyfarwyddwr proffesiynol a fyddai, yn ogystal â goruchwyllo'r rhaglen artistig, yn cyfarwyddo o leiaf un sioe y flwyddyn i'r cwmni. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd hefyd yn barod i ystyried ceisiadau gan Gynhyrchwyr Theatr, Rhaglenwyr neu Artistiaid sydd â phrofiad o gyflawni gwaith llwyddiannus.

Mae rhagor o wybodaeth am y swydd a'r cwmni i'w gweld yn y pecyn. Os gallwch weld eich hun yn cyflawni'r swydd bwysig hon, darllenwch weddill y pecyn a chyflwynwch gais. Edrychwn ymlaen at ei dderbyn.

Efa Gruffudd Jones

Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr



PAM GWEITHIO I THEATR GENEDLAETHOL CYMRU?

Gweledigaeth Theatr Genedlaethol Cymru yw gosod theatr Gymraeg wrth galon y genedl. Ry'n ni'n creu ac yn cyflwyno cynyrchiadau theatr sydd â'r nod o swyno a diddanu ein cynulleidfaoedd a thanio'u dychymyg. Ry'n ni hefyd yn darparu cyfleoedd datblygu fydd yn meithrin ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o artistiaid theatr Cymraeg, ac yn cynnig cyfleoedd creadigol fel y gall pobl ledled Cymru brofi effaith weddnewidiol y celfyddydau.

Sefydlwyd y cwmni yn 2003, ac mae'n un o wyth sefydliad sy'n cael eu cydnabod gan Gyngor Celfyddydau Cymru fel 'cwmnïau cenedlaethol'. Fel cwmni cenedlaethol, ry'n ni wedi ymrwymo i ddangos arweinyddiaeth yn ein sector, meithrin a datblygu doniau, gwneud y gorau o gyfleoedd partneriaeth a chydweithio, datblygu a chynyddu cysylltiadau rhyngwladol, a chyrraedd y cynulleidfaoedd ehangaf posib.

Ers dechrau'r cyfnod clo mae'r cwmni wedi gorfod ailfeddwl y ffordd rydym yn ymwneud â'n cynulleidfaoedd a'n cefnogwyr, a'n dull o gyflwyno ein gwaith. Mae'r cwmni wedi arbrofi gyda chyflwyno gwaith theatr ar blatfformau digidol, yn cynnwys creu gwaith newydd a rhannu recordiadau o gynyrchiadau'r gorffennol. Rydym hefyd wedi cynnig ystod eang o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar blatfformau digidol, yn cynnwys clybiau drama i blant oed cynradd.

Gyda'n sector bellach yn ailagor, ry'n ni'n falch iawn o allu teithio ein cynyrchiadau theatr byw o amgylch Cymru unwaith eto, ac ymwneud â'n cynulleidfaoedd a'n hymgyfranogwyr wyneb yn wyneb. Ry'n ni hefyd yn awyddus i gynnal y berthynas gyda'n cynulleidfaoedd drwy blatfformau digidol, gan dderbyn nad pawb sy'n barod eto i ddychwelyd i'r theatrau.


Mae'r cyfan mae'r cwmni'n ei gyflawni yn digwydd o ganlyniad i ymdrechion tîm o bobl, gan gynnwys ein staff cyflogedig. Mae creu amgylchedd gwaith cadarnhaol a chynhyrchiol yn bwysig iawn i ni fel cwmni, ac rydym yn darparu cefnogaeth i'n staff fel eu bod nhw'n teimlo eu bod yn gallu cyflawni eu gwaith hyd orau eu gallu. Rydym yn cynnig ystod o opsiynau gweithio hyblyg, yn cynnwys cynllun oriau hyblyg, gweithio rhan amser a gweithio o gartref. Mae cyfyngiadau COVID yn golygu bod ein staff yn parhau i weithio o gartref y rhan fwyaf o'r amser, ond wrth i ni ddychwelyd i batrymau gwaith mwy arferol rydym yn awyddus i gadw'r hyblygrwydd sydd wedi datblygu yn sgîl y pandemig. Mae lles ein staff yn holl bwysig i ni, hyd yn oed fwyfwy felly yn y cyfnod presennol, ac oherwydd hynny mae ystod o fesurau mewnol wedi eu cyflwyno i ddiogelu'r staff a cheisio sicrhau cydbwysedd iach rhwng gwaith a'r bywyd tu hwnt.

AM Y CWMNI

Mae Theatr Genedlaethol Cymru yn gwmni cyfyngedig trwy warant (04784488) ac yn elusen gofrestredig (1106032). Rheolir y cwmni gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, sy'n cynnwys hyd at 12 aelod. Cadeirydd presennol y Bwrdd yw Efa Gruffudd Jones. Mae'r Bwrdd yn cynnwys unigolion a chanddynt amrywiaeth o sgiliau a phrofiadau, ac sydd wedi ymrwymo i ffyniant y cwmni.

Mae'r cwmni'n cyflogi rhwng 14 ac 17 aelod o staff craidd, yn gyfuniad o staff llawn amser a rhan amser, a rhai cytundebau tymor penodol. Rheolir y cwmni o ddydd i ddydd gan yr Uwch Dîm Rheoli – y Cyfarwyddwyr Artistig a'r Rheolwr Gyfarwyddwr – gan gydweithio'n agos gyda gweddill y Dîm Rheoli, sef y Cynhyrchydd Gweithredol a'r Pennaeth Cynhyrchu.

STRWYTHUR STAFFIO 2022



*Swydd wag
†Swydd cytundeb tymor penodol

Ceir rhagor o wybodaeth am y Bwrdd a'r staff presennol ar wefan y cwmni:
theatr.cymru/y-cwmni/staff-y-cwmni-ac-ymddiriedolwyr

Cyngor Celfyddydau Cymru yw prif ariannwr y cwmni, ac mae'r cwmni'n derbyn grant refeniw blynyddol o £1,040,892 (swm 2021/22) fel aelod o Bortffolio Celfyddydol Cwmni. Mae mwy o wybodaeth am y portffolio, yn cynnwys y Llawlyfr ar gyfer Cwmnïau Cenedlaethol sy'n nodi'r hyn a ddisgwyli'r gan y noddwr, ar gael [yma](#). Cytunir ar dargedau

blynyddol yn y Cytundeb Ariannu sy'n ymwneud â'r penawdau canlynol: Datblygiad Artistig; Llywodraethu da a datblygu busnes; Cydraddoldeb ac amrywiaeth; Y Gymraeg; a'r Contract Diwylliannol – Posibiliadau o dwf, Gwaith teg, Hybu iechyd, sgiliau a dysgu yn y gweithle, Gostwng eich ôl troed carbon.

MAE'R CWMNI YN CYFLOGI:

16 aelod o staff craidd



Dros **250** o weithwyr
llawrydd y flwyddyn



DROS Y 3 BLYNEDD DDIWETHAF: (Ebrill 2017 - Mawrth 2020)

42,000 o fynychwyr i'n
perfformiadau



20,300 o ymgyfranogwyr i'n
digwyddiadau ymgysylltu



YN YSTOD Y CYFNOD CLO*:

78,000+ o wyladau (*views*)



8 darn newydd, yn cynnwys **3** perfformiad byw

9 ffilm o'r archif **132** o sgysiau a sesiynau cyfranogi



*Mae'r wybodaeth uchod yn seiliedig ar waith y cwmni o fis Ebrill 2020 tan ddiwedd mis Mawrth 2021.

CYNYRCHIADAU

Mae rhai o uchafbwyntiau'r blynyddoedd diwethaf yn cynnwys...



FAUST + GRETA



PRYD MAE'R HAF?




**O BENGROES AT
DROED AMSER**



**MERCHED CAERDYDD /
NOS SADWRN O HYD**



TYLWYTH



FY YNYS LAS




ANFAMOL



GWLAD YR ASYN



LLYGODEN YR EIRA



ENFYS



Y CYLCH SIALC



MACBETH



NYRSYS



Y TAD



BACHU

TU HWNT I GYNYRCHIADAU...

Mae ein gwaith cyfranogi yn ffordd holl bwysig o ymwneud â'n cynulleidfaoedd mewn modd gwahanol, ond hefyd yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i bobl gymryd rhan yn y celfyddydau – i fwynhau, magu hyder a datblygu sgiliau. Mae'r ymwneud â'r celfyddydau hefyd yn gallu cefnogi adferiad a gwella iechyd a lles. Yn aml yn y gwaith yma daw pŵer y celfyddydau i'r amlwg.

Ar y Dibyn: Mae'r prosiect Ar y Dibyn yn rhoi cyfle i bobl sydd wedi cael eu heffeithio gan ddibyniaeth – boed hynny'n bobl sy'n byw gyda dibyniaeth neu sy'n cefnogi pobl eraill sydd â dibyniaeth – i ddod at ei gilydd a rhannu'r straeon hynny mewn ffordd greadigol. Mae hon yn bartneriaeth rhyngom ni, Llenyddiaeth Cymru, Cymdeithas Tai Adra Cyf a'r artist arweiniol Iola Ynyr. Cefnogwyd y prosiect gan Fwrdd Cynllunio Camddefnyddio Sylweddau Gogledd Cymru, Adferiad a Stafell Fyw. Mae'r prosiect yn bosibl drwy gefnogaeth rhaglen lechyd, y Celfyddydau, Ymchwil Pobl (HARP), a gyllidir gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac Y Lab (Prifysgol Caerdydd a Nesta).

Clwb Theatr Cymru: Mae Clwb Theatr Cymru yn brosiect ar y cyd rhwng Theatr Genedlaethol Cymru a Mentrau Iaith Cymru, sy'n dod â phlant Cymru ynghyd i fwynhau amrywiaeth o weithdai dros Zoom. Ers nifer o flynyddoedd, ry'n ni wedi gweithio'n agos gyda Mentrau Iaith yng ngorllewin Cymru i ddarparu Clybiau Drama bob wythnos. Clwb Theatr Cymru dros yr haf yn 2020 oedd y tro cyntaf i'r cwmni weithio mewn partneriaeth â Mentrau Iaith Cymru i ddod â'r holl fentrau ledled Cymru ynghyd, a darparu gwaith cyfranogi ar y raddfa hon.

Prosiect Dwy Stori, Un Llwyfan (Celf Calon)



TU HWNT I GYNYRCHIADAU...

Casgliad Dysgu: Bwriad y casgliad hwn yw rhoi cyfle i ddarlithwyr, athrawon, myfyrwyr, disgyblion, addysgwyr a dysgwyr i wyllo, astudio a mwynhau theatr Gymraeg. Mae'r adnodd dwyieithog ar-lein hwn yn cynnig cyfle i ailymweld â nifer helaeth o gynyrchiadau'r cwmni gyda darpariaeth o adnoddau dysgu i gefnogi darlithwyr, athrawon a myfyrwyr. Mae'r cynyrchiadau sydd o fewn y casgliad yn cynnwys clasuron Cymraeg, cyfieithiadau, ysgrifennu newydd cyfoes a dramâu digidol – gyda rhai o gynyrchiadau mwyaf cofiadwy'r cwmni ar gael i'w gwyllo a'u hastudio. Mae'r Casgliad Dysgu ar gael yn rhad ac am ddim i'r sector addysg yng Nghymru.

Cynllun Dramodwyr Ifanc: Roedd y Cynllun Dramodwyr Ifanc yn gynllun ar y cyd gydag Urdd Gobaith Cymru ac S4C yn 2021 i gynnig cyfleoedd hyfforddi, mentora a datblygu proffesiynol i egin-ddramodwyr rhwng 17 a 25 oed. Roedd y cynllun yn cynnwys sesiynau holi-ac-ateb agored gyda dramodwyr ac awduron sgriptiau profiadol, a chyfleoedd i drafod ymhellach mewn sgrysiâu un-i-un. Roedd y dramodwyr ifanc hefyd yn cael eu hannog a'u cefnogi i gystadlu yng nghystadlaethau cyfansoddi gweithiau dramatig Eisteddfod yr Urdd, ac fe gynhyrchwyd y 3 drama a ddaeth i'r brig fel dramâu digidol. Mae'n fwiad gennym i redeg y cynllun yma eto y flwyddyn nesaf.

Bwrsariaethau: Yn sgil adnabod diffyg amrywiaeth yn y gwaith creadigol dan gomisiwn gan y cwmni, yn 2020 fe lansiwyd dau gynllun bwrsari. Y cyntaf oedd y Bwrsari Datblygu Syniad, wedi ei dargedu at grwpiau oedd wedi eu tangynrychioli yn ein gwaith, a'r ail oedd y Bwrsari Artist a Chymuned, i annog artistiaid i ddatblygu gwaith gyda chymuned benodol, boed hynny'n gymuned ddaearyddol, broffesiynol, ar-lein neu'n gymuned sy'n rhannu nodweddion o ran hunaniaeth. Mae nifer o'r artistiaid a gafodd fwrsari wedi derbyn comisiwn pellach gennym ni.



Gweithgareddau cyfranogi

MANYLION Y SWYDD

CYFARWYDDWR ARTISTIG

Cyflog: £58,292 y flwyddyn

Cyfnod: Tymor penodol – 5 mlynedd

Oriau: Llawn amser (37.5 awr yr wythnos)

Dyddiad Cychwyn: Mai 2022

Yn adrodd i: Fwrdd yr Ymddiriedolwyr
(drwy'r Cadeirydd)


Lleoliad: Mae pencadlys y cwmni yng Nghaerfyrddin, ond ry'n ni'n cynnig amrywiaeth o drefniadau gweithio hyblyg. Oherwydd cyfyngiadau COVID-19, mae ein staff yn parhau i weithio o gartref rhan fwyaf o'r amser.

Hawl i Wyliau Blynyddol: 25 diwrnod + gwyliau cyhoeddus + 2 ddiwrnod o wyliau cwmni adeg y Nadolig.

Cynllun Pensiwn: bydd deiliad y swydd yn cael ei gofrestru'n awtomatig yn y cynllun pensiwn gwaith cymwys. Mae'r cwmni hefyd yn cynnig cynllun pensiwn uwch, gyda'r cwmni a'r cyflogai'n cyfrannu 5% o'r cyflog gros.

Prif Ddiben y Swydd:

- Gosod y weledigaeth artistig ar gyfer y sefydliad a darparu arweinyddiaeth artistig.
- Goruchwyllo pob agwedd ar y rhaglen artistig.
- Gweithio gyda'r Rheolwr Gyfarwyddwr i osod cyfeiriad strategol y cwmni ac i sicrhau bod y cwmni'n gweithredu fel busnes cynaliadwy a llwyddiannus.
- Gweithio gyda'r Rheolwr Gyfarwyddwr i greu ac arwain diwylliant sefydliadol sy'n gynhwysol, yn gydweithredol, yn ddiogel ac yn gefnogol; yn ogystal ag yn feiddgar ac uchelgeisiol yn artistig.



AM BETH RY'N NI'N CHWILIO?

Ry'n ni'n awyddus i glywed gennych os oes gennych weledigaeth uchelgeisiol ac arloesol fydd yn galluogi'r cwmni i gyrraedd ei nodau strategol. Ry'n ni'n edrych am rywun sy'n deall y cyd-destun gweithredu a'r hyn sydd angen ei gyflawni i sicrhau bod y cwmni yn gweithredu fel busnes cynaliadwy a llwyddiannus. Mae hefyd yn angenrheidiol eich bod yn gwbl gefnogol i'r egwyddorion o gydweithredu a bod yn gynhwysol, ac yn deall eu pwysigrwydd.

I wneud cais am y swydd hon, rydyn ni eisiau i chi ddangos:

- eich bod yn arweinydd cryf ac effeithiol
- bod gennych brofiad o ddatblygu theatr a goruchwylio prosesau creadigol
- eich bod yn gallu cyfleu gweledigaeth artistig mewn modd ysbrydoledig
- eich bod wedi ymrwymo i hybu'r iaith Gymraeg ac i ddarparu profiadau a chyfleoedd trwy gyfrwng y Gymraeg
- bod gennych ddealltwriaeth o redeg cwmni, a phwysigrwydd gosod cyfeiriad strategol cryf

Prif bwrpas y cwmni yw creu theatr iaith Gymraeg a Chymraeg yw iaith creu a gweithredu y cwmni, felly mae gofyn bod y person sy'n gwneud y swydd hon yn gallu cyfathrebu'n effeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Bydd y person yn y swydd hon yn aml yn cynrychioli'r cwmni yn gyhoeddus trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ceir rhagor o fanylion am y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar gyfer y swydd yma yn y Manyleb Person ar ddiwedd y ddogfen hon.



I WNEUD CAIS

- Llenwch y ffurflen gais

NEU

- Cyflwynwch fideo byr ohonoch chi'ch hun, gan ateb y cwestiynau a nodir ar y ffurflen gais.

Peidiwch â phoeni am ansawdd y recordio na'r sgiliau camera. Mae ein diddordeb ni yn yr hyn sydd gennych i'w ddweud, nid yn eich gallu technegol. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y swydd, os oes angen unrhyw gymorth arnoch i gyflwyno cais, neu os hoffech gael fformat gwahanol, cysylltwch â ni'n uniongyrchol drwy e-bostio:

angharad.leefe@theatr.com

neu ffonio **07903 842554**

Mae Theatr Genedlaethol Cymru yn defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd, gan gydnabod bod rhai pobl yn profi rhwystrau sy'n anablu. Byddwn yn cyfweld unrhyw ymgeisydd anabl sy'n bodloni meini prawf y swydd, ac rydym wedi ymrwymo i gefnogi unrhyw ofynion mynediad mewn cyfweiliad, neu wedi hynny os bydd yr ymgeisydd yn cael eu penodi.

Faust + Greta (Carl Russell Owen)



MYNEDIAD/CEFNOGAETH

Bydd yr holl offer technoleg gwybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer y swydd yn cael ei ddarparu gan Theatr Genedlaethol Cymru, gan gynnwys unrhyw offer sydd ei angen i hwyluso gweithio o gartref.

Mae ein swyddfeydd yn y Llwyfan yng Nghaerfyrddin yn gwbl hygyrch ar gyfer mynediad i gadeiriau olwyn.

Mae'r mesurau iechyd a diogelwch presennol sy'n ymateb i bandemig COVID-19 yn golygu bod ein staff yn parhau i weithio o gartref rhan fwyaf o'r amser, er ein bod wedi ailagor y swyddfa'n swyddogol. Byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa'n agos dros y misoedd nesaf ac yn teilwra'r trefniadau ar gyfer sefyllfaoedd unigolion.

Gall Theatr Genedlaethol Cymru gefnogi deiliad y swydd gyda chais Mynediad i Waith er mwyn sicrhau cefnogaeth yn seiliedig ar eich

anghenion. Gallai hyn gynnwys grant i helpu gyda thalu costau cymorth ymarferol yn y gweithle neu gartref, cymorth i deithio i'r gwaith ac yn ôl, gwasanaethau gweithiwr cymorth a/neu gymorth iechyd meddwl. Am ragor o wybodaeth, ewch i gov.uk/mynediad-at-waith

Mae Theatr Genedlaethol Cymru yn agored i drafod unrhyw gymorth/adnoddau ychwanegol y gallai fod eu hangen arnoch yn ystod y broses ymgeisio, neu ar ôl recriwtio i'r swydd, i'ch galluogi i wneud eich gwaith gorau. Ni fydd hyn yn effeithio ar ba mor gymwys ydych chi ar gyfer y swydd nac ar gryfder eich cais. I gael sgwrs anffurfiol am gymorth ychwanegol, cysylltwch ag Angharad Leefe drwy e-bostio

angharad.leefe@theatr.com neu ffonio 07903 842554

Ymarferion Y Cylch Sialc (Celf Calon)



YN ADRODD I	Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, trwy'r Cadeirydd
RHEOLWR LLINELL AR	Cynhyrchydd Gweithredol, Pennaeth Cynhyrchu
PRIF DDIBEN Y SWYDD	Penodir y Cyfarwyddwr Artistig gan Fwrdd Ymddiriedolwyr Theatr Genedlaethol Cymru, ac mae'n gweithredu fel Cyd-Brif Weithredwr gyda'r Rheolwr Gyfarwyddwr. Cyfrifoldebau allweddol y Cyfarwyddwr Artistig yw: - Gosod y weledigaeth artistig ar gyfer y sefydliad a darparu arweinyddiaeth artistig. - Goruchwylio pob agwedd ar y rhaglen artistig. - Gweithio gyda'r Rheolwr Gyfarwyddwr i osod cyfeiriad strategol y cwmni a sicrhau bod y cwmni'n gweithredu fel busnes cynaliadwy a llwyddiannus. - Gweithio gyda'r Rheolwr Gyfarwyddwr i greu ac arwain diwylliant sefydliadol sy'n gynhwysol, yn gydweithredol, yn ddiogel ac yn gefnogol – yn ogystal ag yn feiddgar ac uchelgeisiol yn artistig.

TASGAU ALLWEDDOL

GWELEDIGAETH ARTISTIG

- Cynllunio a chreu strategaeth artistig a rhaglen weithgarwch uchelgeisiol ac arloesol, a hynny o fewn y gyllideb sydd ar gael.
- Creu prosiectau theatr newydd yn y Gymraeg sy'n uchelgeisiol a phellgyrhaeddol o ran eu dylanwad, mewn cydweithrediad ag ystod eang o artistiaid, cyfarwyddwyr, cwmnïau a chymunedau, gan arwain fel cyfarwyddwr creadigol lle bo'n briodol.
- Datblygu gwaith theatr aml-lwyfan, gan ddefnyddio ystod o gyfryngau, dulliau cyflwyno a thechnolegau newydd i osod theatr Gymraeg ar y blaen o ran creu prosiectau celfyddydol teithiol, digidol ac arloesol.
- Ehangu'r gynulleidfa theatr yng Nghymru trwy wneud dewis arloesol o gynrychiadau, gan sicrhau safon uchel o waith ac ymroddiad i ragoriaeth bob amser.
- Sicrhau bod rhaglen artistig y cwmni yn un gynhwysol, sy'n cynrychioli ystod eang o bobl ac yn apelio atynt.
- Cefnogi a hyrwyddo datblygiad diwylliant a thalentau theatr yng Nghymru, gan weithio gydag ymagwedd gydweithredol.
- Cynnal perthynas gadarnhaol gydag ystod eang o artistiaid unigol, awduron a grwpiau, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a chomisiynu gwaith newydd.
- Adnabod a manteisio ar gyfleoedd i gynyddu ymwybyddiaeth a rhannu gwaith y cwmni ar lefel genedlaethol a rhyngwladol, a chodi proffil y cwmni fel cwmni Cymreig blaenllaw.
- Yn ddelfrydol, cyfarwyddo o leiaf un cynhyrchiad theatr mewn unrhyw flwyddyn.

CYFRANOGI A DATBLYGU SGILIAU

- Gweithio gyda'r Cynhyrchydd Gweithredol i greu rhaglen o weithgaredd ymgyfranogol sy'n ymateb i alw, a galluogi'r cwmni i ymateb i agendâu cymdeithasol ehangach.
- Gweithio gyda'r Tîm Rheoli i adnabod unrhyw fylchau mewn sgiliau, a ffyrdd y gall y cwmni ymateb i'r bylchau hynny, drwy ddarparu cynlluniau a chyfleoedd hyfforddi.
- Cydweithio'n agos gyda'r Cynhyrchydd Gweithredol a'r Pennaeth Cynhyrchu i ddatblygu rhagoriaeth o ran gwerthoedd cynhyrchu a sgiliau gweithwyr theatr yn y maes hwn yng Nghymru.

CYNLLUNIO STRATEGOL

- Gweithio gyda'r Rheolwr Gyfarwyddwr a'r Tîm Rheoli i osod cynllun busnes hirdymor y cwmni.
- Gweithio gyda'r Rheolwr Gyfarwyddwr a'r Tîm Rheoli i osod a chytuno ar gyllideb flynyddol y sefydliad, gan sicrhau bod costau'n cael eu rheoli'n drylwyr a bod targedau incwm, cyn belled ag y bo modd, yn cael eu cyflawni.

RHEOLAETH AC ARWEINYDDIAETH

- Sicrhau cydweithio effeithiol ac effeithlon gyda'r Rheolwr Gyfarwyddwr er mwyn cynnal safonau uchel yn y Cwmni.
- Gweithio gyda'r Rheolwr Gyfarwyddwr i greu ac arwain diwylliant sefydliadol sy'n gynhwysol, yn gydwethredol, yn ddiogel ac yn gefnogol; yn ogystal ag yn feiddgar ac uchelgeisiol yn artistig.
- Ynghyd â'r Rheolwr Gyfarwyddwr a staff allweddol eraill, creu a chyfrannu at amgylchedd gwaith diogel i weithwyr y cwmni, gweithwyr llawrydd a'r cyhoedd, sy'n bodloni gofynion lechyd a Diogelwch.
- Monitro'r risgiau i'r cwmni'n gyson, ar y cyd gyda'r Rheolwr Gyfarwyddwr, a chynllunio'n ofalus er mwyn rheoli'r risg yn effeithiol.
- Gweithio'n agos gyda'r Rheolwr Gyfarwyddwr, ac aelodau eraill y Tîm Rheoli, er mwyn hyrwyddo arferion gwaith cynaliadwy a lleihau effaith gweithrediadau'r cwmni ar yr amgylchedd.
- Cydweithio gyda'r Rheolwr Gyfarwyddwr a'r Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu i ddatblygu brand a chyfathrebu'r cwmni mewn ffordd sy'n ymgorffori, yn cyflawni ac yn datblygu gwerthoedd ac uchelgeisiau'r Cwmni.
- Bod yn brif lefarydd dros y cwmni, yn gyhoeddus.
- Ynghyd â'r Rheolwr Gyfarwyddwr, arwain ar reolaeth yr holl staff.
- Cynnal perthynas gref ac adeiladol gyda'r Bwrdd, gan baratoi adroddiadau ysgrifenedig ar berfformiad y cwmni, ar y cyd â'r Rheolwr Gyfarwyddwr, a mynychu cyfarfodydd Bwrdd.

- Cymryd rôl arweiniol yn y celfyddydau a bywyd diwylliannol Cymru, gan eiriol dros egwyddorion arloesedd, datblygu artistiaid, ac ymgysylltiad cymunedol sydd wrth wraidd Theatr Genedlaethol Cymru.
- Ymgysylltu ag ystod eang o artistiaid a chymunedau – gan enghreifftio egwyddorion a gwaith parhaus Theatr Genedlaethol Cymru o ran datblygu artistiaid, ymgysylltu cymunedol a rhagoriaeth ym maes celfyddyd theatr, yn arbennig yn y Gymraeg.
- Ymgymryd â'r prif gyfrifoldeb dros lechyd a Diogelwch, ar y cyd â'r Rheolwr Gyfarwyddwr, gan sicrhau bod systemau yn eu lle, yn ogystal ag adnoddau priodol, er mwyn rheoli risgiau I&D.

PARTNERIAETHAU

- Gweithio gyda'r Tîm Rheoli i ddatblygu partneriaethau effeithiol gydag amrywiaeth eang o ganolfannau, lleoliadau a chwmnïau – yn y celfyddydau a thraws-sector, er mwyn cwrdd â nodau'r cynllun busnes.
- Datblygu perthynas greadigol gyda sefydliadau, gwleidyddion, grwpiau ac unigolion yng Nghymru, y DU a rhai rhyngwladol, a allai helpu i ddatblygu a chyrraedd nodau Theatr Genedlaethol Cymru.

CODI ARIAN

- Gweithio gyda'r Rheolwr Gyfarwyddwr a'r Tîm Rheoli i sicrhau bod targedau codi arian yn cael eu cyflawni, gan ymgysylltu'n uniongyrchol â rhoddwyr yn ôl yr angen.
- Gweithio gyda'r Rheolwr Gyfarwyddwr i sicrhau bod y berthynas gyda'n prif gyllidwyr yn parhau i fod yn gryf a chynhyrchiol.

CYFFREDINOL

- Unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill, ar gais Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.
- Arddel a chyfrannu at werthoedd, egwyddorion ac amcanion cyffredinol Theatr Genedlaethol Cymru.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gallu dangos y rhan fwyaf o'r nodweddion, y sgiliau a'r profiad canlynol:

- Gweledigaeth gref ar gyfer datblygiad artistig y cwmni.
- Profiad o ddatblygu gwaith theatr arloesol a phoblogaidd o ansawdd uchel ar gyfer ystod eang o gynulleidfaoedd.
- Profiad o oruchwyllo datblygiad a phrosesau creadigol.
- Dealltwriaeth gynhwysfawr o Gymru a'i chymuned ddiwylliannol.
- Gwybodaeth helaeth o theatr yn y DU ac yn rhyngwladol, gan gynnwys tueddiadau ac arferion cyfredol.
- Ymrwymiad i hybu'r iaith Gymraeg ac i ddarparu profiadau a chyfleoedd trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Ymwybyddiaeth o bwysigrwydd darparu cyfleoedd i ymgyfranogi ac i ddatblygu sgiliau.
- Gallu i gyfleu gweledigaeth artistig y cwmni mewn modd ysbrydoledig i ystod eang o randdeiliaid gan gynnwys y Bwrdd, staff, artistiaid, cyllidwyr, y wasg a'r cyhoedd.
- Sgiliau cyflwyno a chyfathrebu dwyieithog, aeddfed yn cynnwys y gallu i gyfleu sefyllfaoedd neu gysyniadau cymhleth mewn modd cryno.
- Ymwybyddiaeth o sut mae mesur a rheoli risg, tra'n parhau i fod yn feiddgar.
- Dealltwriaeth o redeg cwmni a phwysigrwydd cyfeiriad strategol clir a chyrraedd targedau busnes.
- Sgiliau arwain cryf ac effeithiol gyda'r gallu i ysgogi, ysbrydoli a mentro.
- Ymwybyddiaeth o'r cyd-destun cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol y mae'r cwmni, a'r celfyddydau yn gyffredinol, yn gweithredu ynddo.
- Ymrwymiad i werthoedd diwylliannol a chymdeithasol y cwmni, sy'n cynnwys hyrwyddo cyfle cyfartal a chynhwysiant cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd.
- Ymwybyddiaeth o sut mae cwmni teithiol yn gweithredu'n artistig ac yn ymarferol.

Mae'r profiad a nodir isod hefyd yn ddymunol:

- Profiad o gyfarwyddo sioeau theatr yn broffesiynol
- Profiad o reoli staff